# GAG Newsletter

**Greener Aberystwyth Group** — **No. 11** — **November 2012**

www.aber-gag.org.uk

Editor: Laurie Wright

## Nant Plas Crug – Volunteers needed!

GAG has an on-going commitment to remove litter from Nant Plas Crug. The quality of the water has improved recently but problems with the build up of silt and excess plant growth have led to some stagnation. Each summer inevitably brings an increase in litter which not only looks disgusting but adds to the problem. There is some indication that numbers of plastic bags have decreased following the WAG policy decision to implement a charge for these. Though CCC has sprayed the vigorous plant growth most years, the mild autumns have resulted in rapid regrowth. This, together with an increasing depth of silt has led to a much reduced water flow rate (see photos).




Despite some stagnation the basic ecology of the nant still seems to be good, with a food chain supporting sticklebacks providing for a kingfisher and heron. GAG would like to see the nant dredged to maintain its long-term viability and enhance Plas Crug Avenue. Some dredging at the town end, in front of the grill was done recently, at the time of the floods, to alleviate the threatened flooding at the school end. Unfortunately this has led to further blockages back along the nant. Large mats of aquatic plants have been uprooted and are forming a significant barrier to the water flow (see photos).




It is hoped that, following the recent floods, the WAG will find funding to dredge several ditches and streams, including Nant Plas Crug. At least some good may then have resulted from the flood disaster. Volunteers are requested to join the litter removal rota. (all equipment supplied and activity fully explained)

## GAG Annual General Meeting

The Annual General Meeting will be held in the St Paul's Centre, Queens Road, Aberystwyth on **Thursday 8th November 2012** at 7.30pm.

*After the break for tea/coffee, Leanne Bird, Biodiversity Officer Ceredigion County Council, will give a short talk*

## Tree Planting Volunteer Day

Parc Natur Penglais is holding a Tree Planting Volunteer Day on **Saturday, 10th November** from 10am – 4 pm. We would encourage all GAG members to take part. This is a rare opportunity to get involved in doing something practical about our local environment, by helping to plant some of the 200 trees that are intended to improve the species diversity of the Penglais woodland.

## Tree lost



An oak tree came down in the cemetery during the night of 15 October. Honey fungus is the suspected cause.

## Aberystwyth Main Approach Road




The project to plant trees all along Aberystwyth's main approach road has taken a big step forward. Following the launch of Dafydd Fryer's document *Greening Aber's Approach Road* (cf Newsletter 10), the Forestry Commission has produced an impressive video of how the approach road, from Parcllyn to Alexandra Road, could look in the future, if the recommended plan is implemented. See it on: *www.forestry.gov.uk/forestry/INFD-8J2HGS*
This link is also on the *News* page of the GAG website.

## Parc Natur Penglais AGM

Parc Natur Penglais is holding its Annual General Meeting on **Wednesday 21 November** at 7.30 p.m. in the Octagon room, St Paul's Methodist Church, Queen's Road. Business will be followed by a talk by Dafydd Fryer of the Forestry Commission Wales on *Urban tree canopy cover in Wales – featuring Aberystwyth.*

# Cylchlythyr

**Rhifyn 11 Tachwedd 2012** **Grŵp Aberystwyth Gwyrddach**

**Golygydd: Laurie Wright** **www.abergag.org.uk**

## Nant Plas Crug – Eisiau gwirfoddolwyr!

Mae GAG yn ymroddedig i dynnu sbwriel allan o Nant Plas Crug. Mae safon y dŵr wedi gwella yn ddiweddar, ond mae cynnydd y llaid a thyfiant planhigion wedi creu dŵr llonydd. Bob haf, mae mwy o sbwriel yn gwneud pethau yn waeth, yn ogystal ag edrych yn atgas. Ymddengys fod llai o fagiau plastig yn sgîl penderfyniad llywodraeth Cymru i godi tâl amdanynt. Er i'r Cyngor chwistrellu'r tyfiant cryf bob blwyddyn bron, mae'r hydrefau mwyn wedi achosi ail-dyfiant cyflym. Mae hwn, ynglŷn â'r llaid dwfn wedi arafu'r llif (gw. lluniau).




Er gwaethaf peth marweidd-dra mae ecoleg sylfaenol y nant yn dal i edrych yn dda, ac mae'r gadwyn fwyd yn cynnal crethyll (*sticklebacks*) sy'n fwyd i adar fel glas y dorlan a'r creÿr. Hoffai GAG weld y nant yn cael ei charthu er mwyn ei lles tymor hir ac i wella golwg lôn goed Plas Crug. Amser y llifogydd, gwnaethpwyd peth carthu wrth y gril ger Elmtree Avenue, i leihau perygl llifogydd ymhen arall y nant wrth Ysgol Plas Crug. Yn anffodus, mae hyn wedi achosi tagfeydd ar hyd y nant. Diwreiddiwyd matiau o blanhigion dŵr, sy'n arafu'r llif yn sylweddol (gw. lluniau).




Gobeithir y bydd llywodraeth Cymru, yn sgîl y llifogydd, yn cynnig arian i garthu nifer o ffosydd a nentydd gan gynnwys Nant Plas Crug. Dyma un canlyniad da, o leiaf, o drychineb y llifogydd. Apeliwn yn daer am wirfoddolwyr i ymuno â'n timau i glirio sbwriel (bydd offer ac esboniadau llawn ar gael).

## Cyfarfod Blynyddol GAG

Cynhelir ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yng Nhanolfan St Paul, Morfa Swnd (Queen's Road), Aberystwyth **Nos Iau 8 Tachwedd** am 7.30. *Ar ôl seibiant am de/coffi, bydd Leanne Bird, Swyddog Bioamrywiaeth Cyngor Ceredigion yn siarad.*

## Diwrnod Plannu Coed

Mae Parc Natur Penglais yn cynnal Diwrnod Plannu Coed i wirfoddolwyr **Ddydd Sadwrn 10 Tachwedd**, 10 – 4. Rydym ni'n annog aelodau GAG i gymryd rhan. Dyma gyfle eithriadol i wella ein hamgylchedd drwy helpu i blannu 200 o goed er mwyn cael mwy o amrywiaeth yng nghoed y Parc Natur.

## Colli coeden



Daeth derwen i lawr yn y fynwent yn ystod y nos, 15 Hydref. Tybir mai'r achos oedd Ffwng Mêl (*honey fungus).*

## Prif Fynedfa Aberystwyth




Cafwyd cam mawr ymlaen i'r cynllun i blannu coed ar hyd prif ffordd mewn i'r dref. Yn sgîl lansio dogfen Dafydd Fryer *Greening Aber's Approach Road* (gw. Cylchlythyr 10), mae'r Comisiwn Coedwigaeth wedi gwneud fideo gwefreiddiol i ddangos sut y gallai'r ffordd o Barc y Llyn i Ffordd Alecsandra edrych yn y dyfodol, os gwireddir y cynllun. Gwelwch ef ar:
*www.forestry.gov.uk/forestry/INFD-8J2HGS*
Mae'r ddolen hefyd ar dudalen *Newyddion* wefan GAG.

## Cyfarfod Blynyddol Parc Natur Penglais

Mae Parc Natur Penglais yn cynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol **Nos Fercher 21 Tachwedd** am 7.30 yn ystafell yr octagon, Canolfan St Paul. Ar ôl y cyfarfod busnes ceir sgwrs gan Dafydd Fryer ar y pwnc *Urban tree canopy cover in Wales* – yn rhoi lle amlwg i Aberystwyth.